**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

5 Chwefror 2025

Annwyl Llyr,

**Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi penderfynu cynnal ymchwiliad byr i'r difrod diweddar gan stormydd, a chau Porthladd Caergybi. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r ymchwiliad ganolbwyntio ar y canlynol:

- Achosion: y ffactorau sy'n cyfrannu at ddifrifoldeb y difrod;
- Cyfathrebu: y dull o gyfathrebu yn ystod y storm, ac wedyn, gan gynnwys cyfathrebu â defnyddwyr porthladdoedd, cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gau'r porthladd, a hefyd rhwng llywodraethau.
- Adfer: cyflymder yr ymateb o ran asesu ac atgyweirio'r difrod, gan gynnwys y cymorth a ddarparwyd gan y Llywodraeth; ac
- Effaith: effaith y cau, yn ogystal â maint ac effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r effeithiau.

Rydym yn bwriadu cynnal sesiwn dystiolaeth undydd ar 6 Mawrth ac yn gobeithio trefnu pedwar panel i drafod y canlynol:

- Porthladdoedd;
- Masnach a Logisteg;

- Busnes a Llywodraeth Leol; a
- Safbwynt Llywodraeth Cymru.

Gan fod y Pwyllgor yn bwriadu i hwn fod yn ymchwiliad byr â ffocws, ni fyddwn yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu ysgrifennu at bartïon allweddol â diddordeb i gael eu barn.  Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Iwerddon, cynrychiolwyr busnes gan gynnwys, yn benodol, cludo nwyddau, cynrychiolwyr darparwyr twristiaeth yn y gogledd a chynrychiolwyr gweithwyr.

Gan fod hwn yn fater trawsbynciol sy'n ymdrin â pholisi o fewn cylch gwaith ein dau Bwyllgor, hoffwn wahodd aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i gymryd rhan yn yr ymchwiliad hwn ac ymuno â'n sesiwn ar 6 Mawrth. Rwyf wedi gofyn i'n Clerc drafod materion ymarferol hyn gyda'ch Clerc.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'ch pwyllgor ar y mater pwysig hwn.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg